Cyngor Sir Caerfyrddin

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

# **Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2022**

Cyfeirir at y Gorchymyn hwn fel 'Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2022'.

Ar y nawfed diwrnod o Fehefin 2016 gwnaeth Cyngor Sir Gaerfyrddin ("y Cyngor") Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ("y Gorchymyn Gwreiddiol") fel y disgrifir yn yr atodlen gyntaf.

Daeth y Gorchymyn Gwreiddiol i rym ar 1 Gorffennaf 2016. Fe'i gwnaed am gyfnod cychwynnol o 3 blynedd.

Ar 10 Mehefin 2019, lluniodd y Cyngor orchymyn pellach a oedd yn ymestyn cyfnod y Gorchymyn Gwreiddiol am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2019 ymlaen.

Mae'r Cyngor trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol dan adran 60 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014:

## Estyniad

Bydd y Gorchymyn Gwreiddiol (fel y'i hestynnwyd yn 2019) yn cael ei ymestyn am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2022 ymlaen.

## **Atodlen Gyntaf**

(Y Gorchymyn Gwreiddiol)

Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2016

Dyddiedig y 9fed o fis Mai, 2022

Rhoddwyd Sêl Gyffredin
Cyngor Sir Caerfyrddin
ar y ddogfen hon ym mhresenoldeb:

Linda Rees-Jones

Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

17437